



CBAC Lefel 1/2 Dyfarniad Galwedigaethol mewn Celfyddydau Perfformio (Dyfarniad Technegol)

DEUNYDDIAU ASESU
ENGHREIFFTIOL

UNED 1

I'w haddysgu o 2022
I'w dyfarnu o 2024

Cynnwys

Tudalen Asesiad Mewnol Dan Reolaeth

UNED 1:	Perfformio	
	Briff	4
	Tasgau Aseiniad	5
	Canllaw i'r rheolaethau	10
	Cynllun marcio	12

Uned 1: Perfformio

Aseiniad

DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

10 AWR

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Darllenwch y briff yn ofalus cyn dechrau ar yr aseiniad.

Byddwch yn ennill marciau am dasgau allweddol a gaiff eu cwblhau yn y cyfnod Asesu. Caiff cyfanswm o 10 awr ei neilltuo ar gyfer tasgau a asesir. Ni allwch fynd heibio'r amser hwn. Rhoddir amseriadau a argymhellir ar gyfer pob tasg.

Dylai eich gwaith gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth a feithrinwyd gennych yn ystod sesiynau addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Darllenwch y wybodaeth a thasgau'r aseiniad yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn deall yr hyn sydd ei angen.

Pan fydd tasg yn nodi 'ni chaniateir cydweithio', mae'n bwysig eich bod yn gweithio'n annibynnol ar yr ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith eich hun heb gymorth neb yw'r gwaith sy'n cael ei gynhyrchu.

Gwiriwch eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir ac yn bodloni gofynion yr asesiad.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Bydd angen i chi a'ch athro/athrawes lofnodi datganiad mai eich gwaith chi yn unig yw'r holl waith sy'n cael ei gyflwyno.

Ni chewch drafod na rhannu unrhyw fanylion am y briff na'r tasgau.

Perfformio

Briff Aseiniad Haf 20xx

Mae Gŵyl Celfyddydau Perfformio Whittingborn yn ddigwyddiad blynyddol sydd wedi bod yn rhedeg ers 1945. Diben y digwyddiad yw rhoi cyfle i bobl ifanc o bobl diwylliant berfformio mewn lleoliad proffesiynol, mynegi eu hunain yn greadigol a dangos gwerth y Celfyddydau Perfformio. Mae'r ŵyl yn denu cynulleidfa amrywiol o grwpiau oedran a chefnidiroedd gwahanol.

Bydd y Ffederasiwn Gwyliau Prydeinig a Rhyngwladol (BIFF) yn darparu tîm o feirniaid i'r ŵyl a fydd yn dewis y perfformiadau gorau i gael eu cynnwys yn rhaglen yr ŵyl.

Mae'r rhaglen yn cynnwys cyflwyniadau o'r meysydd canlynol:

- Drama
- Cerddoriaeth
- Technoleg Cerddoriaeth
- Theatr Gerdd (rhaid i unigolion ddangos eu sgiliau mewn o leiaf **ddwy** allan o'r tair disgyblaeth, sef canu, dawnsio ac actio).

Er mwyn gwneud cais am le yn yr ŵyl, bydd angen i chi ymchwilio i ddarn sy'n bodoli eisoes, neu grŵp o ddarnau, o waith proffesiynol/cyhoeddedig i'w ddefnyddio fel rhan o'r rhaglen, ei ymarfer a'i berfformio. Mae gan yr ŵyl y gyfres ganlynol o reolau ar gyfer cyflwyniadau:

- gallwch berfformio'n unigol neu fel rhan o grŵp o hyd at 10 unigolyn.
- bydd angen i unigolion berfformio am rhwng 3 a 6 munud. Mae'r amseriad hwn hefyd yn gymwys mewn perfformiad i bâr/grŵp. Fodd bynnag, gall unigolion berfformio ar yr un pryd (e.e., gallai deuawd â'r ddau unigolyn yn canu ar yr un pryd bara am 3 munud).

Er mwyn i'ch darn(au) gael ei ystyried/eu hystyried i'w ddewis/dewis, hoffai trefnwyr yr ŵyl i chi ddarparu'r canlynol iddynt:

- crynodeb o'r cefndir i'ch darn(au) dewisol i gael ei gynnwys/eu cynnwys yn y rhaglen ar gyfer yr ŵyl.
- cynllun ar gyfer sut mae'r ymchwil hon wedi dylanwadu ar eich perfformiad a pha effaith rydych yn gobeithio ei chyflawni drwy eich perfformiad.
- cynllun ymarfer i sicrhau eich bod wedi paratoi'n llawn ar gyfer y perfformiad.
- recordiadau sy'n dangos y camau rydych wedi'u dilyn:
 - dechrau'r broses,
 - datblygiad a pherfformiad
 - adolygiad
- adborth gan eraill i'r beirniaid benderfynu a ddylid dewis eich perfformiad chi. Gallai hyn fod ar ffurf asesiad gan gyfoedion, arolygon cynulleidfa a/neu adborth gan athro.

Tasgau Aseiniad

Mae'r tasgau a restrir isod yn aseiniadau ffurfiol er mwyn asesu dysgwyr yn unol â'r fanyleb. Bydd angen cyflawni gweithgareddau ymarfer ac archwilio cyn rhai o'r tasgau hyn (e.e. ymchwil i'w darn(au) dewisol yn ogystal ag ymarfer a gaiff ei ddogfennu yn eu cofnod myfyriol).

Cynnwys yr Uned	Tasgau:		Tystiolaeth sy'n ofynnol	Amser a argymhellir	Rheolaethau	AA	Marciau
1.1.1	1a.	Amlinellwch ganfyddiadau'r gwaith ymchwil a wnaethoch ar gyfer eich darn(au) dewisol Dylech chi wneud y canlynol: Nodi eich darn(au) dewisol.	Amlinelliad o'r ymchwil a wnaethoch.	1 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Uniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA1	6
1.1.1	1b.	Trafodwch y modd y bydd yr ymchwil hon yn dylanwadu ar eich perfformiad a'r effaith rydych yn gobeithio ei chyflawni.	Cyfiawnhad o'r ymchwil.	1 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Uniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA3	5
1.1.2	2.	Amlinellwch amserlen ymarfer a fydd yn eich galluogi i fod wedi paratoi'n llawn ar gyfer y perfformiad sy'n ofynnol yn y briff. Dylech chi wneud y canlynol: - trefnu eich amser yn effeithiol. - ystyried mathau gwahanol o ymarfer a fydd yn eich helpu i baratoi.	Cynllun ymarfer.	1 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Uniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA1	4

1.1.2	3.	Lluniwch gofnod myfyriol sy'n cofnodi'r broses ymarfer ymarferol sy'n ofynnol i sicrhau eich bod wedi paratoi'n llawn ar gyfer y perfformiad sy'n ofynnol yn y briff. Dylech gynnwys: - cynlluniau gweithredu - ymarferion paratoi i ffwrdd o'r gofod ymarfer (e.e. dysgu llinellau/ymgyfarwyddo â sgôr/ymarfer symudiadau dawns, paratoi offerynnau/seiniau rhithwir) - ymateb i gyfarwyddyd/coreograffi - sefydlu a chofnodi blocio anodi sgriptiau/nodiant coreograffi/sgorau - mireinio - arsylwi ar ofynion iechyd a diogelwch priodol.	- Cofnod myfyriol - Recordio dechrau'r broses ac yn ystod y broses.	3 awr	Goruchwyliaeth: Dim Canllawiau: Uniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA2	10
-------	----	---	--	-------	--	-----	----

1.2.1	4.	Perfformiwch/cyflwynwch eich darn(au) dewisol i gynulleidfa. Dylech ystyried y canlynol: • cywirdeb • cydsymud • cyfathrebu • rheoli • ymdrin â chamgymeriadau; ymdopi dan bwysau • dehongli. Dylech hefyd ystyried y sgiliau canlynol o'ch disgyblaeth ddewisol: Drama: • dehongli a datblygu cymeriad • eglurder arddull actio/genre dewisol. • defnyddio symudiadau ac ystumiau. • defnyddio llais • ymateb i'r testun.	• Recordiad o'r perfformiad terfynol.	2 awr	Goruchwyliaeth: Dim Canllawiau: Anuniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Caniateir	AA2	20
-------	----	--	---	-------	--	-----	----

		Cerddoriaeth: • rheolaeth dechnegol • rhythm a thraw • dynameg a chydbwysedd • mynegiant • sgiliau technegol ar offeryn dewisol neu lais. Technoleg cerddoriaeth: • rheolaeth dechnegol • dynameg a chydbwysedd • defnydd effeithiol o dechnoleg ddewisol mewn perfformiad neu gyflwyniad: wedi'i recordio a/neu fyw. • mynegiant • cymysgu a chydamseru curiadau. Theatr Gerdd (rhaid i chi ddangos eich sgiliau mewn o leiaf ddau allan o'r tair disgyblaeth, sef canu, dawnsio ac actio): • dehongli a datblygu cymeriad • Canu: techneg leisiol; actio drwy ganu • Dawnsio: techneg dawns, defnyddio arddull(iau) • Actio: symudiad, llais, cymeriad • rhyng-gysylltiad rhwng y tair disgyblaeth					
--	--	--	--	--	--	--	--

1.3.1 1.3.2	5.	Gwerthuswch lwyddiant eich perfformiad yn cynnwys yr hyn rydych wedi'i ddysgu drwy wneud y gwaith hwn a sut y bydd yn llywio eich perfformiadau yn y dyfodol. Dylech ystyried y canlynol: • adborth gan eraill • a wnaeth y perfformiad gyflawni eich nod • cryfderau a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol • cynlluniau gweithredu a thargedau ar gyfer perfformiadau yn y dyfodol • arferion gwaith proffesiynol, yn cynnwys iechyd a diogelwch priodol.	• Cynllun gwerthuso / datblygu.	2 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Uniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA3	15
Cyfanswm y Marciau							60

Canllaw i'r Rheolaethau

Mae nifer o agweddau gwahanol a gaiff eu rheoli o fewn asesiad mewnol eich Dyfarniadau Galwedigaethol, sef:

- goruchwyliaeth
- canllawiau
- adnoddau
- cydweithio

Goruchwyliaeth

Ceir dwy lefel o oruchwyliaeth yn asesiad Uned 1 Celfyddydau Perfformio:

Goruchwyliaeth anuniongyrchol	Nid oes rhaid goruchwyllo'r ymgeiswyr yn uniongyrchol drwy'r amser. Rhaid i'r ganolfan sicrhau: • bod pob ymgeisydd yn cymryd rhan yn yr asesiad. • bod digon o oruchwyliaeth i sicrhau bod y gwaith yn gallu cael ei ddilysu. • mai gwaith unigol yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu. Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.
Dim Goruchwyliaeth	Gall gwaith gael ei gwblhau y tu allan i'r ganolfan heb oruchwyliaeth uniongyrchol. Lle na chaiff goruchwyliaeth ei nodi, gall ymgeiswyr fel arfer wneud y canlynol: • defnyddio adnoddau electronig ac adnoddau print heb gyfyngiadau. • defnyddio'r rhyngrwyd heb gyfyngiadau. • gweithio mewn grwpiau.

Cyfarwyddyd

Drwy gydol yr Asesiad dan reolaeth o Uned 1 Celfyddydau Perfformio, ceir rheolaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol ar ganllawiau:

Categori o gyngor/adborth:	Uniongyrchol	Anuniongyrchol
Gall athrawon:		
Adolygu gwaith ymgeiswyr a rhoi cyngor ar lafar ac yn ysgrifenedig ar lefel gyffredinol i sicrhau canlyniad gweithredol.	X	✓
Gwerthuso cynnydd hyd yn hyn a chynnig ffyrdd eang o wella.	X	X
Rhoi cyngor manwl a phenodol ar sut i wella fersiynau drafft er mwyn bodloni meini prawf asesu.	X	X
Rhoi adborth manwl ar wallau a hepgoriadau sy'n gadael ymgeiswyr heb gyfle i ddangos y gallant weithio ar eu liwt eu hunain.	X	X
Ymyrryd yn bersonol i wella cyflwyniad neu gynnwys darn o waith.	X	X

Cyn rhoi cymorth ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a ddisgrifir uchod, rhaid i athrawon sicrhau bod darpariaeth ar gael i gofnodi'r cymorth hwn. Rhaid cofnodi manylion ar y ffurflen gofnodi a gyhoeddir gan CBAC. Rhaid ystyried yr ymyriad wrth farcio'r gwaith. Dylid defnyddio anodiadau i esbonio sut cafodd marciau eu cymhwyso yng nghyd-destun y cymorth ychwanegol a roddwyd. Ystyrir methu â dilyn y weithdrefn hon yn achos o gamymddwyn.

Adnoddau

Caniateir adnoddau drwy gydol Asesiad dan reolaeth Uned 1 Celfyddydau Perfformio:

Caniateir

Fel arfer, nid oes cyfyngiad ar yr adnoddau sydd ar gael i ymgeiswyr, dylid dilyn y cyfarwyddyd yn y briff neu ganllawiau'r uned.

Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.

Dylai canolfannau gyfeirio at fanylebau neu ganllawiau pwnc-benodol.

Dylai canolfannau gyfeirio at ganllawiau CBAC Camymddwyn – canllaw i ganolfannau a chanllawiau JCQ Suspected malpractice in examinations and assessments – policies and assessments – policies and procedures os nad ydynt yn siŵr ynghylch y camau nesaf y dylent eu cymryd.

Cydweithio

Ni all ymgeiswyr gydweithio ar y mwyafrif o'r tasgau yn Uned 1 ond gallant gydweithio ar gyfer Tasg 4 – Perfformiad.

Ailddrafftio

Caniateir ailddrafftio o fewn amser yr asesiad dan reolaeth a heb adborth gan yr athro.

Amser

Caiff cyfanswm o 10 awr ei neilltuo ar gyfer tasgau a asesir. Ni all ymgeiswyr fynd heibio'r amser hwn. O ran rheolaethau amser, canllawiau yn unig yw'r amseriadau a argymhellir ar gyfer tasgau Uned 1. Er hyn, dylai canolfannau annog ymgeiswyr i beidio â mynd heibio i'r rhain na pheidio â neilltuo digon o amser ar gyfer y gwaith hwn.

Cynllun Marcio

Cyfarwyddyd

Gridiau asesu ar gyfer yr Asesiad Mewnol o Uned 1

Egwyddorion marcio cyffredinol

- Mae'r marciau a ddyfernir yn farciau cyflawn (nid hanner marciau, na ffraciynau eraill).
- Dim ond pan gaiff y nodweddion hyn eu hasesu'n benodol gan y cwestiwn fel y nodir gan y cynllun marcio y dylid beirniadu ansawdd ar ansawdd y sillafu, yr atalnodi, a'r gramadeg. Fodd bynnag, dylai'r ystyr fod yn ddiamwys.
- Dylid dyfarnu marciau gan ddefnyddio'r ystod lawn o farciau a ddiffinnir yn y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn (fodd bynnag; gellir cyfyngu ar y defnydd o'r ystod lawn o farciau yn unol ag ansawdd yr ymatebion a welir gan ymgeiswyr).
- Mae'r marciau a ddyfernir yn seiliedig ar y gofynion a ddiffinnir yn y cynllun marcio yn unig. Ni ddylid dyfarnu marciau gan ystyried trothwyon gradd na disgrifyddion gradd.

Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae disgrifydd y band yn disgrifio lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys ystod o farciau.

Cyn marcio, dylai aseswyr yn gyntaf ddarllen ac anodi gwaith ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu. Ar ôl cwblhau'r anodi, gallwch gymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hon.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai aseswyr edrych ar yr adran briodol o waith yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marcio ar gyfer yr adran honno. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylai aseswyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.

Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, byddai'r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylai aseswyr dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o'u gwaith.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Ar ôl penderfynu ar y band, gall aseswyr fynd ati i bennu marc. Bydd CBAC yn darparu deunydd enghreifftiol y rhoddwyd marc iddo yn barod, a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu'r gwaith.

Wrth farcio, gall aseswyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw gwaith ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff aseswyr eu hatgoffa bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.

Os nad yw'r gwaith yn haeddu marc, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau.

Safoni mewnlol

Os oes mwy nag un athro/athrawes mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei safoni'n fewnlol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl ynglŷn â'r broses gymedroli drwy'r wefan ddiogel ar ddiwrnod y canlyniadau.

Gwahaniaethu o fewn ein cynlluniau marcio

Mae'r grid canlynol yn dangos ein man cychwyn ar gyfer creu ein cynlluniau marcio. Defnyddir y rhain er mwyn sicrhau bod modd gwahaniaethu rhwng ein bandiau. Bydd cynlluniau marcio yn defnyddio'r tabl hwn fel sail ar gyfer asesu pob cwestiwn ond bydd yn adlewyrchu gofynion penodol y cwestiwn.

Band Disgrifydd	AA1	AA2	AA3
Ardderchog	- Yn ymwybodol o amrywiaeth eang o wybodaeth fanwl a chywir. - Yn dangos dealltwriaeth sydd wedi'i datblygu'n llawn ac sy'n dangos perthnasedd i ofynion y cwestiwn.	- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu cymhwyso'n gyson i gyd-destun y cwestiwn/y dasg. - Mae sgiliau ymarferol yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn effeithiol ac maent o safon uchel. - Yn gallu cyflwyno dehongliad datblygedig a thrylwyr sy'n hollol gywir.	- Mae sgiliau dadansoddi a gwerthuso yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol iawn. - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i ddatblygu dadl effeithiol a chytbwys. - Gwerthusiad manwl ac wedi'i gyfiawnhau sy'n cynnig barn gadarn, yn arwain at gasgliadau rhesymol.
Da lawm	Defnydd effeithiol a manwl gywir o derminoleg.		
Da	- Yn meddu ar amrywiaeth o wybodaeth fanwl a chywir. - Yn dangos dealltwriaeth wedi'i datblygu'n dda sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn. - Defnydd manwl gywir o derminoleg.	- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu cymhwyso i gyd-destun y cwestiwn/y dasg. - Mae sgiliau ymarferol yn cael eu cymhwyso'n effeithiol ac maent o safon uchel i ganolig. - Yn gallu cynnig dehongliad datblygedig sy'n gywir ar y cyfan.	- Mae sgiliau dadansoddi a gwerthuso yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol. - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl ddatblygedig, na chaiff ei chyflwyno'n gyfartal o bosibl. - Gwerthusiad manwl sy'n cynnig barn gadarn ar y cyfan, gyda pheth cysylltiad rhwng casgliadau rhesymol a thystiolaeth.
Boddhaol	- Yn cynnwys gwybodaeth gywir. - Yn dangos dealltwriaeth gadarn sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn/y dasg. - Yn defnyddio terminoleg fanwl gywir ar y cyfan.	- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu cymhwyso i gyd-destun y cwestiwn/y dasg ar y cyfan. - Mae sgiliau ymarferol yn cael eu cymhwyso'n briodol ac maent o safon ganolig. - Yn gallu llunio dadansoddiad cadarn sy'n gywir ar y cyfan.	- Mae sgiliau dadansoddi a gwerthuso yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol a chadarn. - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl gadarn. NEU - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl unochrog fanwl. - Gwerthusiad sy'n cynnig rhywfaint o farn, gyda pheth cysylltiad rhwng casgliadau a thystiolaeth.

Sylfaenol	- Yn dangos peth gwybodaeth gywir. - Yn dangos dealltwriaeth rannol sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn. - Peth defnydd o derminoleg briodol.	- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn cael eu cymhwyso'n rhannol i gyd-destun y cwestiwn/y dasg. - Mae sgiliau ymarferol o safon ganolig i isel. - Yn gallu llunio peth dehongliad sy'n dangos rhywfaint o gywirdeb.	- Mae sgiliau dadansoddi a gwerthuso yn cael eu defnyddio mewn ffordd addas gan ddangos lefel gadarn o gymhwysedd ond efallai nad oes manwl gywirdeb. - Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl unochrog. - Gwerthusiad sy'n cynnig barn a chasgliadau cyffredinol, ac sy'n cynnwys y defnydd gofynnol o dystiolaeth.
Cyfyngedig	- Gwybodaeth gyfyngedig gyda pheth perthnasedd i'r pwnc neu'r cwestiwn. - Prin yw'r datblygiad a welir, neu nid oes datblygiad o gwbl. - Prin iawn yw'r defnydd o derminoleg, neu ni chaiff ei defnyddio o gwbl.	- Mae gwybodaeth a dealltwriaeth wedi'u cymhwyso mewn modd gofynnol at gyd-destun y cwestiwn/y dasg. - Mae sgiliau ymarferol o safon isel. - Os oes dehongliad o gwbl, mae hwnnw'n ddehongliad syml a chyfyngedig iawn yw'r cywirdeb.	- Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso gyda chymhwysedd cyfyngedig. - Gwerthusiad heb ei gefnogi sy'n cynnig barn/casgliadau syml os o gwbl.

Pan edrychwch ar bob un o'n cynlluniau marcio, mae gan bob band ddilyniant o ddisgrifyddion perfformiad. Mae'r disgrifyddion yn gweithio fel ysgol: o'r gris isaf, i'r gris uchaf. Y band isaf 'Cyfyngedig' yw'r disgrifydd symlaf mewn perthynas â pherfformiad ymgeiswyr. Mae'r disgrifyddion yn symud drwy'r grid i'r agwedd fwy heriol ar yr amcan asesu hwnnw. Mae'n bwysig nodi na fydd pob cwestiwn yn defnyddio pob pwynt bwled a restrir yn y tabl uchod, fodd bynnag, dylai'r ymgeiswyr ddangos **pob un o'r gofynion** a gaiff eu cynnwys yn y cynlluniau marcio cyhoeddedig er mwyn cael marciau llawn ar lefel benodol. Os bydd ymgeisydd yn cael marciau llawn ar lefel benodol, dylai'r marcwyr weld a yw'n dangos unrhyw rai o'r gofynion o'r lefel nesaf i fyny. Yn aml, bydd ymgeiswyr yn cyflawni rhai o'r disgrifyddion ar un lefel, ond nid ar bob lefel. Yn yr achos hwn, dylid cymhwyso dull ffit orau.

Ceir rhagor o wybodaeth am y modd y mae'r cynlluniau marcio ar gyfer ein Dyfarniadau Galwedigaethol wedi cael eu creu, yn cynnwys gwybodaeth am y defnydd o'r bandiau marcio ar gyfer Ardderchog, Da iawn a Da yng Nghanllaw Gweinyddol y Dyfarniadau Galwedigaethol.

Tasg 1a	Amlinellwch ganfyddiadau'r gwaith ymchwil a wnaethoch ar gyfer eich darn(au). [6 Marc] Dylai'r ymgeiswyr nodi eu darn(au) dewisol a gallant ystyried: • yr awdur/cyfansoddwr/coreograffydd gwreiddiol a'i fwriadau ar gyfer y darn(au) • y naws a'r arddull/genre a fwriedir • y themâu a'r syniadau • y gofod perfformio • pwrpas • y gydberthynas rhwng cynulleidfa a'r perfformiwr • y gynulleidfa darged wreiddiol • y gynulleidfa darged newydd.
Band	AA1: Dangos gwybodaeth am bob rhan o'r fanyleb a dealltwriaeth ohoni.
3	5-6 marc Ymateb da iawn sy'n dangos: • amrywiaeth o wybodaeth a dealltwriaeth fanwl a chywir o waith ymchwil a gofynion eu darn(au) dewisol • dealltwriaeth ddatblygedig sy'n dangos perthnasedd i ofynion eu darn(au) dewisol • tystiolaeth/enghreifftiau perthnasol • dyfnder ac amrywiaeth y dystiolaeth/enghreifftiau a ddefnyddir. • defnydd manwl gywir o derminoleg.
2	3-4 marc Ymateb da sy'n dangos: • gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl a chywir o waith ymchwil a gofynion eu darn(au) dewisol • dealltwriaeth sy'n dangos perthnasedd i ofynion eu darn(au) dewisol • peth tystiolaeth/enghreifftiau priodol • dyfnder neu amrywiaeth y dystiolaeth/enghreifftiau a ddefnyddir • defnydd manwl gywir o derminoleg ar y cyfan.
1	1-2 marc Ymateb sylfaenol sy'n dangos: • rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o waith ymchwil a gofynion eu darn(au) dewisol. • rhywfaint o ddealltwriaeth sy'n berthnasol i ofynion eu darn(au) dewisol • rhywfaint o dystiolaeth/enghreifftiau • peth defnydd o derminoleg briodol.
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 1b	Trafodwch y modd y bydd yr ymchwil hon yn dylanwadu ar eich perfformiad a'r effaith rydych yn gobeithio ei chyflawni. [5 Marc]
Band	AA3: Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau priodol.
3	5 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad da iawn o'r hyn y mae wedi'i ddysgu drwy wneud y gwaith ymchwil drwy drafod: • ystyriaeth fanwl ac effeithiol o'r modd y bydd y gwaith ymchwil yn dylanwadu ar ei ddewisiadau perfformiad. • ystyriaeth lawn i'r effaith a fwriadwyd ar gyfer ei ddarn(au).
2	3-4 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad da o'r hyn y mae wedi'i ddysgu drwy wneud y gwaith ymchwil drwy drafod: • ystyriaeth fanwl o'r modd y bydd y gwaith ymchwil yn dylanwadu ar ei ddewisiadau perfformiad. • ystyriaeth i'r effaith a fwriadwyd ar gyfer ei ddarn(au).
1	1-2 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad sylfaenol o'r hyn y mae wedi'i ddysgu drwy wneud y gwaith ymchwil drwy drafod: • rhywfaint o ystyriaeth o'r modd y bydd y gwaith ymchwil yn dylanwadu ar ei ddewisiadau perfformiad. • rhywfaint o ystyriaeth i'r effaith a fwriadwyd ar gyfer ei ddarn(au).
	0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.

Tasg 2	<i>Amlinellwch amserlen ymarfer a fydd yn eich galluogi i fod wedi paratoi'n llawn ar y perfformiad sy'n ofynnol yn y briff. [4 Marc]</i> <i>Dylai'r ymgeiswyr ddangos eu gwybodaeth a dealltwriaeth am y canlynol:</i> <i>• rheoli amser yn effeithiol</i> <i>• mathau gwahanol o ymarfer</i>
	AA1:<i>Dangos gwybodaeth am bob rhan o'r fanyleb a dealltwriaeth ohoni.</i>
	Dyfarnwch ddau farc am gynllun amser effeithiol wedi'i datblygu'n llawn. Dyfarnwch un marc am gynllun amser sylfaenol heb lawer o fanylder o bosibl. Dyfarnwch ddau farc am ystyriaeth lawn o wahanol fathau o ymarfer. Dyfarnwch un marc am ystyriaeth rannol o wahanol fathau o ymarfer.

Tasg 3	<i>Lluniwch gofnod myfyriol sy'n cofnodi'r broses ymarfer ymarferol sy'n ofynnol i sicrhau eich bod wedi paratoi'n llawn ar gyfer y perfformiad sy'n ofynnol yn y briff. [10 Marc]</i> <i>Dylai'r ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'r canlynol:</i> • cynlluniau gweithredu • ymarferion paratoi i ffwrdd o'r gofod ymarfer (e.e., dysgu llinellau/ymgyfarwyddo â sgôr/ymarfer symudiadau dawn, paratoi offerynnau/seiniau rhithwir) • ymateb i gyfarwyddyd/coreograffi • sefydlu a chofnodi blocio; anodi sgriptiau/nodiant coreograffi/sgorau • mireinio • arsylwi ar ofynion iechyd a diogelwch priodol.
Band	AA2: Cymhwyso sgiliau (gan gynnwys sgiliau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.
4	9-10 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i gynllunio a dysgu o ymarferion a dealltwriaeth ohonynt yn ardderchog drwy wneud y canlynol: • llunio cynllun gweithredu manwl ac effeithiol sy'n dangos bod yr ymgeisydd wedi paratoi'n llawn ar gyfer y perfformiad. • dangos ymarferion paratoi effeithiol iawn • dangos ymateb effeithiol iawn i gyfarwyddyd/coreograffi • cyflwyno cofnod cwbl fwriadol o sefydlu a chofnodi blocio; anodi sgriptiau/nodiant coreograffi/sgorau. • rhoi esboniad manwl ac effeithiol o'r gwaith o fireinio'r broses ymarfer • dangos ei fod yn arsylwi ar ofynion iechyd a diogelwch priodol yn gyson.
3	6-8 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i gynllunio a dysgu o ymarferion a dealltwriaeth ohonynt yn dda drwy wneud y canlynol: • llunio cynllun gweithredu manwl sy'n dangos bod yr ymgeisydd wedi paratoi'n llawn ar gyfer y perfformiad. • dangos ymarferion paratoi effeithiol • dangos ymateb effeithiol i gyfarwyddyd/coreograffi • cyflwyno cofnod bwriadol o sefydlu a chofnodi blocio; anodi sgriptiau/nodiant coreograffi/sgorau • rhoi esboniad manwl o'r gwaith o fireinio'r broses ymarfer • dangos ei fod yn arsylwi ar ofynion iechyd a diogelwch priodol.

2	3-5 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i gynllunio a dysgu o ymarferion a dealltwriaeth ohonynt mewn modd sylfaenol drwy wneud y canlynol: • llunio cynllun gweithredu sy'n dangos bod yr ymgeisydd wedi paratoi'n llawn ar gyfer y perfformiad. • dangos ymarferion paratoi • dangos ei fod yn rhoi ystyriaeth i ymateb i gyfarwyddyd/coreograffi • cyflwyno cofnod bwriadol o sefydlu a chofnodi blocio; anodi sgriptiau/nodiant coreograffi/sgorau • rhoi esboniad o'r gwaith o fireinio'r broses ymarfer • dangos ei fod yn rhoi ystyriaeth rannol i arsylwi ar ofynion iechyd a diogelwch priodol.
1	1-2 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i gynllunio a dysgu o ymarferion a dealltwriaeth ohonynt mewn modd cyfyngedig drwy wneud y canlynol: • llunio cynllun gweithredu gofynnol sy'n dangos bod yr ymgeisydd wedi paratoi rhywfaint ar gyfer y perfformiad. • dangos ymarferion paratoi gofynnol • dangos ymateb gofynnol i gyfarwyddyd/coreograffi • cyflwyno cofnod gofynnol o sefydlu a chofnodi blocio; anodi sgriptiau/nodiant coreograffi/sgorau • rhoi esboniad gofynnol o'r gwaith o fireinio'r broses ymarfer • dangos ei fod yn rhoi ystyriaeth ofynnol i arsylwi ar ofynion iechyd a diogelwch priodol.
0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	

Opsiwn Drama		
Tasg 4	<i>Perfformiwch/cyflwynwch eich darn(au) dewisol i gynulleidfa.</i> <i>Dylai'r ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'r canlynol:</i> • <i>cywirdeb</i> • <i>cydsymud</i> • <i>cyfathrebu</i> • <i>rheoli</i> • <i>ymdrin â chamgymeriadau; ymdopi dan bwysau</i> • <i>Dehongli</i> • <i>dehongli a datblygu cymeriad</i> • <i>egllurder arddull actio/genre dewisol.</i> • <i>defnydd o symudiadau ac ystumiau.</i> • <i>defnydd o'r llais</i> • <i>ymateb i'r testun.</i>	[20 marc]
Band	AA2: <i>Cymhwyso sgiliau (gan gynnwys sgiliau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau a thasgau.</i>	
5	17-20 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn drama a dealltwriaeth ohonynt yn ardderchog drwy ddangos lefel effeithiol iawn o'r canlynol: • cywirdeb drwy gydol y perfformiad • cydsymud drwy gydol y perfformiad • cyfathrebu drwy gydol y perfformiad • rheolaeth drwy gydol y perfformiad • dulliau o fynd i'r afael â chamgymeriadau; ymdopi'n dda iawn dan bwysau • dehongli'r darn(au) • dehongli a datblygu cymeriad • eglurder yr arddull actio/genre dewisol drwy gydol y perfformiad • defnydd o symudiadau ac ystumiau drwy gydol y perfformiad • defnydd o'r llais drwy gydol y perfformiad • ymateb i'r testun.	
4	13-16 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn drama a dealltwriaeth ohonynt yn dda drwy ddangos lefel effeithiol o'r canlynol: • cywirdeb yn ystod y perfformiad • cydsymud yn ystod y perfformiad • cyfathrebu yn ystod y perfformiad • rheolaeth yn ystod y perfformiad • dulliau o fynd i'r afael â chamgymeriadau; ymdopi'n dda dan bwysau • dehongli'r darn(au) • dehongli a datblygu cymeriad • eglurder yr arddull actio/genre dewisol yn ystod y perfformiad • defnydd o symudiadau ac ystumiau yn ystod y perfformiad • defnydd o'r llais yn ystod y perfformiad • ymateb i'r testun.	

3	9-12 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn drama a dealltwriaeth ohonynt mewn modd boddhaol drwy ddangos: • cywirdeb yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • cydsymud yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • cyfathrebu yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • rheolaeth yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • dull o fynd i'r afael â chamgymeriadau ymdopi dan bwysau. • dehongli'r darn(au) • dehongli a datblygu cymeriad • eglurder yr arddull actio/genre dewisol yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • defnydd o symudiadau ac ystumiau yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • defnydd o'r llais yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • ymateb i'r testun.
2	5-8 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn drama a dealltwriaeth ohonynt mewn modd sylfaenol drwy ddangos y canlynol i ryw raddau: • cywirdeb yn ystod y perfformiad • cydsymud yn ystod y perfformiad • cyfathrebu yn ystod y perfformiad • rheolaeth yn ystod y perfformiad • dulliau o fynd i'r afael â chamgymeriadau; dangos rhywfaint o achosion o ymdopi dan bwysau • dehongli'r darn(au) • dehongli a datblygu cymeriad • eglurder yr arddull actio/genre dewisol yn ystod y perfformiad • defnydd o symudiadau ac ystumiau yn ystod y perfformiad • defnydd o'r llais yn ystod y perfformiad • ymateb i'r testun.
1	1-4 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn drama a dealltwriaeth ohonynt mewn modd cyfyngedig drwy ddangos lefel ofynnol o'r canlynol: • cywirdeb yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • cydsymud yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • cyfathrebu yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • rheolaeth yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • dulliau o fynd i'r afael â chamgymeriadau; dangos diffyg gallu i ymdopi dan bwysau • dehongli'r darn(au) • dehongli a datblygu cymeriad • eglurder yr arddull actio/genre dewisol yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • defnydd o symudiadau ac ystumiau yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • defnydd o'r llais yn ystod y perfformiad • ymateb i'r testun.
0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	

Opswn Cerddoriaeth		
Tasg 4	Perfformiwch/cyflwynwch eich darn(au) dewisol i gynulleidfa. Dylai'r ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'r canlynol: • cywirdeb • cydsymud • cyfathrebu • rheoli • ymdrin â chamgymeriadau; ymdopi dan bwysau • Dehongli • Rheolaeth Dechnegol • rhythm a thraw • dynameg a chydbwysedd • mynegiant • sgiliau technegol ar offeryn dewisol neu lais.	[20 marc]
Band	AA2: Cymhwyso sgiliau (gan gynnwys sgiliau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau.	
5	17-20 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn cerddoriaeth a dealltwriaeth ohonynt yn ardderchog drwy ddangos lefel effeithiol iawn o'r canlynol: • cywirdeb drwy gydol y perfformiad • cydsymud drwy gydol y perfformiad • cyfathrebu drwy gydol y perfformiad • rheolaeth drwy gydol y perfformiad • dulliau o fynd i'r afael â chamgymeriadau; ymdopi'n dda iawn dan bwysau • dehongli'r darn(au) • rheolaeth dechnegol drwy gydol y perfformiad • rhythm a thraw drwy gydol y perfformiad • amrywiaeth o ddynameg a chydbwysedd drwy gydol y perfformiad • mynegiant drwy gydol y perfformiad • sgiliau technegol ar offeryn dewisol neu lais.	
4	13-16 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn cerddoriaeth a dealltwriaeth ohonynt yn dda drwy ddangos lefel effeithiol o'r canlynol: • cywirdeb yn ystod y perfformiad • cydsymud yn ystod y perfformiad • cyfathrebu yn ystod y perfformiad • rheolaeth yn ystod y perfformiad • dulliau o fynd i'r afael â chamgymeriadau; ymdopi'n dda dan bwysau • dehongli'r darn(au) • rheolaeth dechnegol • rhythm a thraw yn ystod y perfformiad • dynameg a chydbwysedd yn ystod y perfformiad • mynegiant yn ystod y perfformiad • sgiliau technegol ar offeryn dewisol neu lais.	

3	9-12 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn cerddoriaeth a dealltwriaeth ohonynt mewn modd boddhaol drwy ddangos: • cywirdeb yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • cydsymud yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • cyfathrebu yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • rheolaeth yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • dull o fynd i'r afael â chamgymeriadau ymdopi dan bwysau. • dehongli'r darn(au) • rheolaeth dechnegol • rhythm a thraw yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • dynameg a chydbwysedd yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • mynegiant yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • sgiliau technegol ar offeryn dewisol neu lais.
2	5-8 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn cerddoriaeth a dealltwriaeth ohonynt mewn modd sylfaenol drwy ddangos y canlynol i ryw raddau: • cywirdeb yn ystod y perfformiad • cydsymud yn ystod y perfformiad • cyfathrebu yn ystod y perfformiad • rheolaeth yn ystod y perfformiad • dulliau o fynd i'r afael â chamgymeriadau; dangos rhywfaint o achosion o ymdopi dan bwysau • dehongli'r darn(au) • rheolaeth dechnegol • rhythm a thraw yn ystod y perfformiad • dynameg a chydbwysedd yn ystod y perfformiad • mynegiant yn ystod y perfformiad • sgiliau technegol ar offeryn dewisol neu lais.
1	1-4 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn cerddoriaeth a dealltwriaeth ohonynt mewn modd cyfyngedig drwy ddangos lefel ofynnol o'r canlynol: • cywirdeb yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • cydsymud yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • cyfathrebu yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • rheolaeth yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • dulliau o fynd i'r afael â chamgymeriadau; dangos diffyg gallu i ymdopi dan bwysau • dehongli'r darn(au) • rheolaeth dechnegol • rhythm a thraw yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • dynameg a chydbwysedd yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • mynegiant yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • sgiliau technegol ar offeryn dewisol neu lais.
0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	

Opsiwn Technoleg Cerddoriaeth	
Tasg 4	<i>Perfformiwch/cyflwynwch eich darn(au) dewisol i gynulleidfa. [20 Marc]</i> <i>Dylai'r ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'r canlynol:</i> • <i>cywirdeb</i> • <i>cydsymud</i> • <i>cyfathrebu</i> • <i>rheoli</i> • <i>ymdrin â chamgymeriadau; ymdopi dan bwysau</i> • <i>dehongli</i> • <i>rheolaeth dechnegol</i> • <i>dynameg a chydbwysedd</i> • <i>defnydd effeithiol o dechnoleg ddewisol mewn perfformiad: wedi'i recordio a/neu fyw.</i> • <i>mynegiant</i> • <i>cymysgu a chydamseru curiadau.</i>
Band	AA2: <i>Cymhwyso sgiliau (gan gynnwys sgiliau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau.</i>
5	17-20 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn technoleg cerddoriaeth a dealltwriaeth ohonynt yn ardderchog drwy ddangos lefel effeithiol iawn o'r canlynol: • cywirdeb drwy gydol y perfformiad/cyflwyniad • cydsymud drwy gydol y perfformiad/cyflwyniad • cyfathrebu drwy gydol y perfformiad/cyflwyniad • rheolaeth drwy gydol y perfformiad/cyflwyniad • dulliau o fynd i'r afael â chamgymeriadau; ymdopi'n dda iawn dan bwysau • dehongli'r darn(au) • rheolaeth dechnegol drwy gydol y perfformiad/cyflwyniad • amrywiaeth o ddynameg a chydbwysedd drwy gydol y perfformiad/cyflwyniad • defnydd o dechnoleg ddewisol mewn perfformiad/cyflwyniad: wedi'i recordio a/neu fyw. • mynegiant drwy gydol y perfformiad/cyflwyniad • cymysgu a chydamseru curiadau drwy gydol y perfformiad/cyflwyniad.
4	13-16 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn technoleg cerddoriaeth a dealltwriaeth ohonynt yn dda drwy ddangos lefel effeithiol o'r canlynol: • cywirdeb yn ystod y perfformiad/cyflwyniad • cydsymud yn ystod y perfformiad/cyflwyniad • cyfathrebu yn ystod y perfformiad/cyflwyniad • rheolaeth yn ystod y perfformiad/cyflwyniad • dulliau o fynd i'r afael â chamgymeriadau; ymdopi'n dda dan bwysau • dehongli'r darn(au) • rheolaeth dechnegol • dynameg a chydbwysedd yn ystod y perfformiad/cyflwyniad • defnydd o dechnoleg ddewisol mewn perfformiad/cyflwyniad: wedi'i recordio a/neu fyw. • mynegiant yn ystod y perfformiad • cymysgu a chydamseru curiadau drwy gydol y perfformiad/cyflwyniad.
3	9-12 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn technoleg cerddoriaeth a dealltwriaeth ohonynt mewn modd boddhaol drwy ddangos:

	• cywirdeb yn ystod rhywfaint o'r perfformiad/cyflwyniad • cydsymud yn ystod rhywfaint o'r perfformiad/cyflwyniad • cyfathrebu yn ystod rhywfaint o'r perfformiad/cyflwyniad • rheolaeth yn ystod y perfformiad/cyflwyniad • dull o fynd i'r afael â chamgymeriadau dangos rhywfaint o achosion o ymdopi dan bwysau • dehongli'r darn(au) • rheolaeth dechnegol • dynameg a chydbwysedd yn ystod rhywfaint o'r perfformiad/cyflwyniad • defnydd o dechnoleg ddewisol mewn rhywfaint o'r perfformiad/cyflwyniad: wedi'i recordio a/neu fyw. • mynegiant yn ystod rhywfaint o'r perfformiad/cyflwyniad • cymysgu a chydamseru curiadau drwy gydol y perfformiad/cyflwyniad.
2	5-8 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn technoleg cerddoriaeth a dealltwriaeth ohonynt mewn modd sylfaenol drwy ddangos y canlynol i ryw raddau: • cywirdeb yn ystod y perfformiad/cyflwyniad • cydsymud yn ystod y perfformiad/cyflwyniad • cyfathrebu yn ystod y perfformiad/cyflwyniad • rheolaeth yn ystod y perfformiad/cyflwyniad • dulliau o fynd i'r afael â chamgymeriadau; dangos rhywfaint o achosion o ymdopi dan bwysau • dehongli'r darn(au) • rheolaeth dechnegol • dynameg a chydbwysedd yn ystod y perfformiad/cyflwyniad • defnydd o dechnoleg ddewisol mewn perfformiad/cyflwyniad: wedi'i recordio a/neu fyw. • mynegiant drwy gydol y perfformiad/cyflwyniad • cymysgu a chydamseru curiadau drwy gydol y perfformiad/cyflwyniad.
1	1-4 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn technoleg cerddoriaeth a dealltwriaeth ohonynt mewn modd cyfyngedig drwy ddangos lefel ofynnol o'r canlynol: • cywirdeb yn ystod rhywfaint o'r perfformiad/cyflwyniad • cydsymud yn ystod rhywfaint o'r perfformiad/cyflwyniad • cyfathrebu yn ystod rhywfaint o'r perfformiad/cyflwyniad • rheolaeth yn ystod y perfformiad/cyflwyniad • dulliau o fynd i'r afael â chamgymeriadau; dangos diffyg gallu i ymdopi dan bwysau • dehongli'r darn(au) • rheolaeth dechnegol • dynameg a chydbwysedd yn ystod rhywfaint o'r perfformiad/cyflwyniad • defnydd o dechnoleg ddewisol mewn rhywfaint o'r perfformiad/cyflwyniad: wedi'i recordio a/neu fyw. • mynegiant yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • cymysgu a chydamseru curiadau yn ystod rhywfaint o'r perfformiad/cyflwyniad.
0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	

Opsiwn Theatr Gerdd		
Tasg 4	<i>Perfformiwch/cyflwynwch eich darn(au) dewisol i gynulleidfa.</i> <i>Dylai'r ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'r canlynol:</i> • <i>cywirdeb</i> • <i>cydsymud</i> • <i>cyfathrebu</i> • <i>rheoli</i> • <i>ymdrin â chamgymeriadau; ymdopi dan bwysau</i> • <i>dehongli</i> • <i>dehongli a datblygu cymeriad</i> • <i>canu: techneg leisiol; actio drwy ganu</i> • <i>dawnsio: techneg dawns, cymhwyso arddull(iau)</i> • <i>actio: symudiad, llais, cymeriad</i> • <i>rhyng-gysylltiad rhwng y tair disgyblaeth.</i>	[15 marc]
Noder: ni ellir rhoi dyfarniad uwch na Band 3 i ymateb sydd ond yn dangos un sgîl i'r tair disgyblaeth sef canu, dawnsio ac actio.		
Band	AA2: <i>Cymhwyso sgiliau (gan gynnwys sgiliau ymarferol), gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac wrth gynllunio a chynnal ymchwiliadau.</i>	
5	17-20 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn theatr gerdd a dealltwriaeth ohonynt yn ardderchog drwy ddangos lefel effeithiol iawn o'r canlynol: • cywirdeb drwy gydol y perfformiad • cydsymud drwy gydol y perfformiad • cyfathrebu drwy gydol y perfformiad • rheolaeth drwy gydol y perfformiad • dulliau o fynd i'r afael â chamgymeriadau; ymdopi'n dda iawn dan bwysau • dehongli'r darn(au) • dehongli a datblygu cymeriad • sgiliau mewn o leiaf ddau o'r canlynol: • defnydd o dechneg leisiol ac actio drwy ganu drwy gydol y perfformiad. • techneg dawns a chymhwyso arddulliau dawns drwy gydol y perfformiad • symudiad, defnydd o'r llais a defnydd o cymeriad wrth actio drwy gydol y perfformiad. • rhyng-gysylltiad rhwng y tair disgyblaeth.	

4	13-16 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn theatr gerdd a dealltwriaeth ohonynt yn dda drwy ddangos lefel effeithiol o'r canlynol: • cywirdeb yn ystod y perfformiad • cydsymud yn ystod y perfformiad • cyfathrebu yn ystod y perfformiad • rheolaeth yn ystod y perfformiad • dulliau o fynd i'r afael â chamgymeriadau; ymdopi'n dda dan bwysau • dehongli'r darn(au) • dehongli a datblygu cymeriad • sgiliau mewn o leiaf ddau o'r canlynol: • defnydd o dechneg leisiol ac actio drwy ganu yn ystod y perfformiad. • techneg dawns a chymhwyso arddulliau dawns yn ystod y perfformiad • symudiad, defnydd o'r llais a defnydd o gymeriad wrth actio yn ystod y perfformiad. • rhyng-gysylltiad rhwng y tair disgyblaeth.
3	9-12 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn theatr gerdd a dealltwriaeth ohonynt mewn modd boddhaol drwy ddangos: • cywirdeb yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • cydsymud yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • cyfathrebu yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • rheolaeth yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • dull o fynd i'r afael â chamgymeriadau dangos rhywfaint o achosion o ymdopi dan bwysau • dehongli'r darn(au) • dehongli a datblygu cymeriad • sgiliau mewn o leiaf un o'r canlynol: • defnydd o dechneg leisiol ac actio drwy ganu yn ystod rhywfaint o'r perfformiad. • techneg dawns a chymhwyso arddulliau dawns yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • symudiad, defnydd o'r llais a defnydd o gymeriad wrth actio yn ystod rhywfaint o'r perfformiad. • rhyng-gysylltiad rhwng y disgyblaethau.
2	5-8 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn theatr gerdd a dealltwriaeth ohonynt mewn modd sylfaenol drwy ddangos y canlynol i ryw raddau: • cywirdeb yn ystod y perfformiad • cydsymud yn ystod y perfformiad • cyfathrebu yn ystod y perfformiad • rheolaeth yn ystod y perfformiad • dulliau o fynd i'r afael â chamgymeriadau; dangos rhywfaint o achosion o ymdopi dan bwysau • dehongli'r darn(au) • dehongli a datblygu cymeriad • sgiliau mewn o leiaf un o'r canlynol: • defnydd o dechneg leisiol ac actio drwy ganu yn ystod y perfformiad. • techneg dawns a chymhwyso arddulliau dawns yn ystod y perfformiad • symudiad, defnydd o'r llais a defnydd o gymeriad wrth actio yn ystod y perfformiad. • rhyng-gysylltiad rhwng y disgyblaethau.

1	1-4 marc Mae'r ymgeisydd wedi cymhwyso gwybodaeth am sgiliau perfformio mewn theatr gerdd a dealltwriaeth ohonynt mewn modd cyfyngedig drwy ddangos lefel ofynnol o'r canlynol: • cywirdeb yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • cydsymud yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • cyfathrebu yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • rheolaeth yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • dulliau o fynd i'r afael â chamgymeriadau; dangos diffyg gallu i ymdopi dan bwysau • dehongli'r darn(au) • dehongli a datblygu cymeriad • sgiliau mewn o leiaf un o'r canlynol: • defnydd o dechneg leisiol ac actio drwy ganu yn ystod rhywfaint o'r perfformiad. • techneg dawns a chymhwyso arddulliau dawns yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • symudiad, defnydd o'r llais a defnydd o gymeriad wrth actio yn ystod rhywfaint o'r perfformiad • rhyng-gysylltiad rhwng y disgyblaethau.
0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	

Tasg 5	<i>Gwerthuswch lwyddiant eich perfformiad yn cynnwys yr hyn rydych wedi'i ddysgu drwy wneud y gwaith hwn a sut y bydd yn llywio eich perfformiadau yn y dyfodol.</i> [15 Marc] <i>Dylai'r ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'r canlynol:</i> • <i>adborth gan eraill</i> • <i>a wnaeth y perfformiad gyflawni ei nodau</i> • <i>cryfderau a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol</i> • <i>cynlluniau gweithredu a thargedau ar gyfer perfformiadau yn y dyfodol</i> • <i>arferion gwaith proffesiynol, yn cynnwys iechyd a diogelwch priodol.</i>
Band	AA3: <i>Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, llunio barn wedi'i rhesymu a chyflwyno casgliadau priodol.</i>
4	13-15 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad ardderchog o lwyddiant ei berfformiad drwy'r canlynol: • cynnal gwerthusiad manwl ac effeithiol o adborth gan eraill mewn ffordd effeithiol • cyflwyno safbwyntiau effeithiol iawn ar lwyddiant y perfformiad gyda chysylltiadau perthnasol rhwng casgliadau a thystiolaeth • nodi amrywiaeth eang o gryfderau a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol • llunio cynllun gweithredu effeithiol iawn ar gyfer perfformiadau yn y dyfodol • cyfeirio'n fanwl ac yn effeithiol at arferion gwaith proffesiynol, yn cynnwys iechyd a diogelwch priodol.
3	9-12 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad da o lwyddiant ei berfformiad drwy'r canlynol: • cynnal gwerthusiad effeithiol o adborth gan eraill mewn ffordd effeithiol ar y cyfan • cyflwyno safbwyntiau effeithiol ar lwyddiant y perfformiad gyda chysylltiadau perthnasol rhwng casgliadau a thystiolaeth • nodi amrywiaeth o gryfderau a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol • llunio cynllun gweithredu effeithiol ar gyfer perfformiadau yn y dyfodol • cyfeirio'n fanwl ac yn effeithiol at arferion gwaith proffesiynol, yn cynnwys iechyd a diogelwch priodol.
2	5-8 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad sylfaenol o lwyddiant ei berfformiad drwy'r canlynol: • cynnal gwerthusiad o adborth gan eraill ond efallai nad yw'n ddigon manwl gywir. • cyflwyno rhai safbwyntiau ar lwyddiant y perfformiad gyda rhywfaint o ddefnydd o dystiolaeth • Nodi rhai cryfderau a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol • llunio cynllun gweithredu ar gyfer perfformiadau yn y dyfodol • gwneud rhai cyfeiriadau at arferion gwaith proffesiynol, yn cynnwys iechyd a diogelwch priodol.

1	1-4 marc Mae'r ymgeisydd wedi dangos dadansoddiad a gwerthusiad cyfyngedig o lwyddiant ei berfformiad drwy'r canlynol: • cynnal gwerthusiad gofynnol o adborth gan eraill ond nid yw'n ddigon manwl gywir. • cyflwyno safbwyntiau gofynnol ar lwyddiant y perfformiad nad ydynt wedi'u cefnogi. • nodi nifer bach o gryfderau a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol • llunio cynllun gweithredu gofynnol ar gyfer perfformiadau yn y dyfodol • cyfeirio mewn modd gofynnol at arferion gwaith proffesiynol, yn cynnwys iechyd a diogelwch priodol.
0 marc Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb.	

Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu: Uned 1

Tasg	Cynnwys y fanyleb (ffocws)					Dyraniad marciau			
	Pwnc ac Adran					Cyfanswm y Marciau	Marciau AA1	Marcia u AA2	Marciau AA3
	1.1		1.2	1.3					
	1.1.1	1.1.2	1.2.1	1.3.1	1.3.2				
1a	6					6	6	0	0
1b	5					5	0	0	5
2		4				4	4	0	0
3		10				10	0	10	0
4			20			20	0	20	0
5				15		15	0	0	15
Cyfanswm marciau'r adran	11	14	20	15					
	Cyfanswm y Marciau					60	10	30	20